

‘Myned Allan i Fanfrig Gwreiddiau’:
Waldo Williams a *The Penguin New Writing*

Jason Walford Davies

Ffrwyth y profiad ysgytwol o weld, yn Amgueddfa Avebury yn y 1940au, ysgerbwd merch ddeuddeg oed (fel y tybid ar y pryd) a ddarganfuwyd ar safle Neolithig Windmill Hill gerllaw yw cerdd bwerus Waldo Williams, ‘Geneth Ifanc’.¹ Fel y’n hatgoffwyd gan R. Geraint Gruffydd mewn ysgrif ar y gerdd, y mae hi hefyd yn fyfyrddod ar ddwy golled deuluol drasig: marwolaeth geneth ifanc arall, sef chwaer y bardd, Morvydd, yn 1915, a hithau’n nesu at ei thair ar ddeg, a marwolaeth Linda Llewellyn, gwraig Waldo, ar 1 Mehefin 1943, ychydig dros ddwy flynedd wedi iddynt briodi.² Wrth drafod pennill olaf ‘Geneth Ifanc’, tyn Gruffydd sylw at yr ‘eco gweddol eglur’ a glyw yno ‘o gân serch gan y bardd o Sais, A. S. J. Tessimond’.³ Y tu ôl i linellau enwog Waldo – ‘Dyfnach yno oedd yr wybren eang[,] | Glasach ei glas oherwydd hon. | Cadarnach y tŷ anweledig a diamser | Erddi hi ar y copâu hyn’⁴ – fe saif, fe ddadleua Gruffydd, linellau agoriadol pennill olaf cerdd A. S. J. Tessimond, ‘First Meeting: *To Diane*’:

And the air was softer and sounds were sharper
And colours were brighter and the sky was higher
And length was not measured by milestones and time
was not measured by clocks . . .⁵

Â Gruffydd rhagddo i nodi:

Tybed a ddigwyddodd Waldo ddarllen y gerdd a gweld yn y llinellau hyn awgrym sut y gallai yntau ddweud yr hyn a fynnai am yr ysgerbwd ar Windmill Hill ac am y chwaer a gollasai’n ieuanc? Os felly, gan mai llinellau o gerdd serch yw’r rhain, anodd meddwl nad oedd Linda hefyd yn bresennol yn ei feddwl wrth iddo gyfansoddi’r gerdd.⁶

Y mae hon, mi gredaf, yn ddadl dra argyhoeddiadol. Cynigia Gruffydd, eto yn argyhoeddiadol, 1947 fel dyddiad tebygol ar gyfer ‘Geneth Ifanc’, a nodi mewn troednodyn fod cerdd Tessimond wedi ei chyhoeddi gyntaf yn *The Penguin*

1 Waldo Williams, ‘Geneth Ifanc’, *Dail Pren* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1956), t. 23.

Gweler hefyd sylwadau’r bardd ar y gerdd, *ibid.*, t. 119.

2 R. Geraint Gruffydd, ‘“Geneth Ifanc”: Rhai Sylwadau’, yn *Cof ac Arwydd: Ysgrifau Newydd ar Waldo Williams*, goln Damian Walford Davies a Jason Walford Davies ([Abertawe]: Cyhoeddiadau Barddas, 2006), tt. 136–42 (t. 139).

3 *Ibid.*, t. 141.

4 Williams, ‘Geneth Ifanc’, *Dail Pren*, t. 23.

5 Dyfynnir yn Gruffydd, ‘“Geneth Ifanc”’, tt. 141–42.

6 *Ibid.*, t. 142.

New Writing, 21, a ymddangosodd yn 1944 dan olygyddiaeth John Lehmann.⁷ Dyma drywydd y tâl inni ei archwilio ymhellach. Yn yr ysgrif bresennol byddaf yn dangos bod y rhifyn arbennig hwn o *The Penguin New Writing* – casgliad cyfoethog o gerddi, straeon byrion ac astudiaethau beirniadol sydd, fel ei gyd-rifynnau, yn ffurfio cyfrol swmpus yn ei hawl ei hun – yn ffynhonnell allweddol yn achos sawl un o gerddi mwyaf Waldo Williams. Byddaf yn dangos hefyd fod nifer o'r darnau ynddo wedi gweithredu fel catalyddion delweddol a strwythurol pwysig yng ngwaith Waldo, ac yn hyn o beth gobeithir y bydd yr ysgrif yn fodd o bennu trywydd beirniadol newydd a fydd yn taflu goleuni dadlennol ar ddefnydd unigolyddol Waldo o ffynonellau llenyddol Saesneg, ac a fydd hefyd, fe hyderir, yn dyfnhau ein hamgyffred o rym arbennig rhyngdestunoldeb fel rhan o'r broses greadigol yn achos y bardd hwn.

Hollbwysig yn y lle cyntaf yw nodi bod *The Penguin New Writing* – a ddeilliodd o'r cyfnodolyn *New Writing* a sefydlwyd gan y bardd a'r golygydd John Lehmann (1907–87) yn 1936 – yn un o gyhoeddiadau llenyddol mwyaf dylanwadol a phoblogaidd ei gyfnod. Cafwyd deugain rhifyn o *The Penguin New Writing*, yn ymestyn o 1940 hyd 1950, y cyfan dan olygyddiaeth Lehmann. Ymhlith y cyfranwyr y mae rhai o ffigyrau mawr y ganrif: ym maes barddoniaeth, er enghraifft, ymddengys ar dudalennau'r cyfnodolyn waith gan W. H. Auden, Stephen Spender, C. Day Lewis, Roy Fuller, Norman Nicholson, John Heath-Stubbs, Edith Sitwell, George Barker a Louis MacNeice. At hyn oll, dylid galw sylw at y ffaith arwyddocaol fod y rhifyn penodol y mae a wnelom ag ef yma, yn achos y drafodaeth hon ar y modd y bu iddo ddylanwadu ar waith Waldo Williams, yn un arbennig: dyma'r 'twenty-first birthday number', fel y noda Lehmann yn ei ragair,⁸ ac y mae'r golygydd hefyd yn cyfrannu ysgrif fuddiol yn cyd-destunoli'r fenter ac yn bwrw golwg yn ôl ar ddechreuadau'r cyhoeddiad.⁹

Buddiol yn y fan hon fyddai cynnig gair ynghylch A. S. J. Tessimond (1902–62), y bardd yr adleisir ei gerdd 'First Meeting: *To Diane*' gan Waldo Williams yn 'Geneth Ifanc'. Fe'i ganed ym Mhenbedw, ac fel y nododd golygydd ei waith, Hubert Nicholson, yn 1985: 'His mother's maiden name was Evans, so there may have been a Welsh strain'.¹⁰ Cywir oedd tybiaeth Nicholson: yr oedd mam Tessimond yn ferch i lieinwerthwr ffyniannus o Sir Ddinbych a oedd wedi symud i Lerpwl.¹¹ A cheir yma hefyd gysylltiadau Cymraeg a Chymreig pellach y mae'n werth galw sylw atynt. Dyna gyfeillgarwch hir y bardd, rhwng 1928 a'i farw yn 1962, â'r artistiaid Ceri Richards a'i wraig Frances, er enghraifft – perthynas y

7 Ibid., tt. 137, 142.

8 John Lehmann, 'Foreword', *The Penguin New Writing*, 21 (1944), gol. John Lehmann, tt. 7–8 (t. 7).

9 John Lehmann, 'Without My Files', *ibid.*, tt. 137–48. Ar y cyd-destun, gweler ymhellach Françoise Bort, 'John Lehmann's *New Writing*: The Duty to be Tormented', *Synergies*, 4 (2011), 63–73 <<http://ressources-cla.univ-fcomte.fr/gerflint/RU-Irlande4/bort.pdf>> [cyrchwyd 5 Awst 2013]

10 *The Collected Poems of A. S. J. Tessimond with Translations from the French of Jaques Prévert*, gol. Hubert Nicholson (Reading: The Whiteknights Press, 1985), t. xiv.

11 Yr wyf yn ddiolchgar i Dr James Bainbridge o Brifysgol Lerpwl am gadarnhau'r wybodaeth hon. Fel y dywed Dr Bainbridge: 'However, Tessimond seems to have been unaware of this fact – speculating that she "may have been Welsh" on account of her maiden name' (e-bost at yr awdur presennol, 5 Medi 2013).

cafwyd dadansoddiad byr ond buddiol (a hynod onest) ohoni gan yr olaf yn 1979.¹² (Diddorol yn ogystal yw nodi bod dwy gerdd gan Tessimond, 'Money Talks' a 'Song in a Saloon Bar', wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg gan T. H. Parry-Williams, a'u gosod i gerddoriaeth gan y cyfansoddwr Ian Parrott.¹³) Daeth Tessimond i amlygrwydd yn sgil cael ei gynnwys, ar y cyd ag Auden, Day Lewis, Spender ac Empson, yn antholeg hynod ddylanwadol Michael Roberts, *New Signatures*, yn 1932, ac erbyn y 1940au daethai ei enw'n bur adnabyddus, a'i gerddi'n dra phoblogaidd. Eithr wedi ei farwolaeth, teg dweud bod ei *oeuvre* wedi ei esgeuluso'n ddybryd. Y mae'n bwysig nodi na fu erioed yn ffigwr cwbl anghofiedig, a bod sawl un o'i gerddi wedi ymddangos mewn antholegau ac wedi eu darlledu yn gyson ar hyd y blynyddoedd: diau y cofir am 'The British', 'England (Autumn 1938)', a 'The Man in The Bowler Hat', er enghraifft: 'I am the unnoticed, the unnoticeable man. | The man who sat on your right in the morning train: | The man you looked through like a windowpane'.¹⁴ Ond cywilyddus o brin – o leaf tan yn gymharol ddiweddar – yw'r sylw beirniadol a roddwyd i farddoniaeth Tessimond.

Tair cyfrol yn unig o'i waith a gyhoeddwyd yn ystod ei fywyd, sef *The Walls of Glass* (1934), *Voices in a Giant City* (1947), a *Selection* (1958); yr oedd yr olaf yn cynnwys detholiad o'r ddwy gyfrol flaenorol, ynghyd â rhai cerddi anghasgledig. Wedi ei farwolaeth cyhoeddwyd dau gasgliad pellach, a olygwyd gan Hubert Nicholson, sef *Not Love Perhaps . . .* (1978) a *Morning Meeting* (1980), ynghyd â *The Collected Poems of A. S. J. Tessimond* (1985), eto dan olygyddiaeth Nicholson. Ar ei orau – ac fe'i ceir ar ei orau, yn ddiamau i'm tyb i, yn ei ail gyfrol, *Voices in a Giant City* – y mae Tessimond yn fardd cynnil, awgrymog a chanddo lais treiddgar o eironig yn ei archwiliadau o *milieu* diffiniol y farddoniaeth, y fetropolis. Fel y nododd Hubert Nicholson wrth gyflwyno'r prif gasgliad o waith Tessimond yn 1985: 'His hallmark, his unique contribution to the body-poetic, is to be found in those poems encapsulating urban types [...] and the institutions that shape and demarcate their lives, the popular press and radio, films, money, advertising, machines, houses, tube stations, the implacable streets.'¹⁵ Nodwedd ddiffiniol arall ohono fel bardd yw ei gerddi serch, lle y mae'r pwyslais yn aml, er nad yn ddieithriad, ar y chwerw-felys ac ar y siomedigaethau a'r dioddefaint a

12 Frances Richards, *A Friendship with John Tessimond* (Edinburgh: The Tragara Press, 1979). Tyn Richards sylw, er enghraifft, at yr elfennau truenus – a gwrthgyferbyniol – yng nghymeriad Tessimond: 'In spite of his sometimes apparent simplicity he was a romantically complex character, and lived three sorts of lives. He was at once the respectable copywriter at the London Press Exchange, the intellectual and poet who had a long correspondence with Ezra Pound, and the rather pathetic figure who continually sought the company of young prostitutes' (t. [4]).

13 A. S. J. Tessimond, T. H. Parry-Williams ac Ian Parrott, *Money Talks – Sieryd Pres: For Male Voices and Piano* (London: Elkin & Co, 1951); A. S. J. Tessimond, T. H. Parry-Williams ac Ian Parrott, *Song in a Saloon Bar – Cân Mewn Bar Salŵn: Part Song for Male Voices and Piano* (Cardiff: University of Wales Press, 1963). Yng nghyswllt yr olaf, gweler adolygiad canmoliaethus Elizabeth Poston yn *The Musical Times*, 104.1447 (Medi 1963), 648: 'True to the male voices for which it is set [...] it has been sparked off by words that haunt and grip and have begotten a work that touches instantly below the surface. There has been nothing like it since Warlock's *The Fox*.'

14 *The Collected Poems of A. S. J. Tessimond*, tt. 45, 52–53, 33.

15 *Ibid.*, t. xiii.

ddaw i ganlyn y serch hwnnw. ‘[A] decided poetic personality,’ meddai Roy Fuller amdano mewn adolygiad yn y *London Magazine* yn 1959 ar y gyfrol *Selection*: ‘a shy, urban and nocturnal creature of erotic mishaps’.¹⁶ Profai Tessimond gyfnodau cyson o iselder dwys (‘involuntional melancholia’, a defnyddio term ei ddoctoriaid) – cyflwr a barodd iddo wirfoddoli (gweithred anarferol yn y cyswllt hwn) ar gyfer triniaeth electrogynhyrfol (ECT). Effeithiodd hyn yn ddybryd ar ei gof,¹⁷ a gallai hefyd fod wedi cyfrannu at ei farwolaeth annhymig (bu farw o waedlif ar yr ymennydd yn ei fflat yn Chelsea).¹⁸ Crisielir llawer ynghylch arddull ac awyryglch cerddi Tessimond gan sylwadau K. W. Gransden mewn adolygiad arall ar *Selection*, yn *The Listener* yn 1958:

His style is so easy and lucid that it sometimes seems casual, but the lightness of the touch usually saves it [...] He has a refreshing gift for simplifying unpretentiously the quiet, sad, drifting life of modern man [...] Mr Tessimond does not roar at the top of his voice about sublimities; he is an intimate writer, and his pitch and tone are true to the let-downs of ordinary life.¹⁹

Fel y bwriadaf ddangos yn yr ysgrif bresennol, dwg un arall o gerddi adnabyddus Waldo Williams berthynas ddiddorol ag ail gerdd gan A. S. J. Tessimond yn y rhifyn arbennig hwnnw, rhif 21, o *The Penguin New Writing*. Ond cyn mynd rhagom i archwilio’r cysylltiad hwn, buddiol fydd galw sylw at y ffaith fod gwaith y Sais – megis *oeuvre* Waldo yntau, yn wir – wedi bod yn wrthrych cryn dipyn o sylw beirniadol newydd yn y blynyddoedd diweddar (nodwyd yn 2012 hanner can mlynedd er marwolaeth Tessimond). Ymhlith y cyhoeddiadau barddonol a beirniadol pwysicaf yn y cyswllt hwn – gweithiau sydd wedi aildanio diddordeb yn y bardd a meithrin cynulleidfa newydd ar ei gyfer – y mae’r argraffiad newydd (2010), ar y cyd rhwng Bloodaxe Books a Whiteknights Press, o *Collected Poems* 1985 (cyfrol y disgwylir iddi, oherwydd ei llwyddiant, gael ei hailbrintio’n fuan²⁰); yr argraffiad newydd gan Faber, yn 2008, o gasgliad Nicholson yn 1978, *Not Love Perhaps . . .*; ac astudiaethau ac adolygiadau gan Andrew McCulloch, Mark Ford, a phrif ladmerydd cyfoes Tessimond, James Bainbridge (sydd ar hyn o bryd yn llunio

- 16 Dyfynnir yn Andrew McCulloch, “‘Not Love Perhaps . . .’: The Poetry of A. S. J. Tessimond”, *Times Literary Supplement*, 5 Tachwedd 2010, 14–15 (t. 15).
- 17 Gweler yr adran “‘Just a Prick in Your Arm’” yn ymdriniaeth James Bainbridge, ‘A. S. J. Tessimond (1902–62)’, <<http://bloodaxeblogs.blogspot.co.uk/2012/07/asj-tessimond-1902-62-by-james.html>> [cyrchwyd 14 Awst 2013]
- 18 Gweler sylw gofalus Hubert Nicholson yn ei ragair i *Not Love Perhaps . . . : Poems by A. S. J. Tessimond*, gol. Hubert Nicholson (London: Autolycus, 1978), t. 5: ‘frequent electric shock treatment [...] may have shortened his life, but equally may have averted a suicide that in dark times seemed inevitable’.
- 19 K. W. Gransden, ‘Voices in a Giant World’, *The Listener*, 60.1540 (2 Hydref 1958), 58.
- 20 Yr wyf yn ddiolchgar i Neil Astley, golygydd Bloodaxe Books, am yr wybodaeth hon (e-bost at yr awdur presennol, 14 Awst 2013).

bywgraffiad o'r bardd).²¹

Y mae'n ddiddorol nodi bod nifer o'r ymatebion beirniadol hyn i waith Tessimond – gan Nicholson, McCulloch a K. W. Gransden, er enghraifft (yr olaf yn yr adolygiad hwnnw y dyfynnwyd ohono uchod) – yn dwyn sylw penodol at gerdd Tessimond 'Not Love Perhaps'. Yn wir, teg yw dweud bod hon wedi datblygu'n un o gerddi diffiniol yr *oeuvre*. Bu iddi ymddangos gyntaf yn y rhifyn hwnnw (21) o *The Penguin New Writing*, yn union cyn y gerdd a adleisia Waldo yn 'Geneth Ifanc', 'First Meeting: *To Diane*', a oedd hithau'n cael ei chyhoeddi am y tro cyntaf yn y fan hon. Y mae ffaith bwysig bellach i'w nodi yn achos 'First Meeting: *To Diane*', sef ei bod wedi aros yn anghasgledig tan 1980, pryd y'i cynhwyswyd gan Hubert Nicholson yn ei gasgliad o gerddi Tessimond, *Morning Meeting*, ddeunaw mlynedd wedi marwolaeth y bardd.²² Dyma arwydd go gryf, felly, mai yn y rhifyn hwnnw o *The Penguin New Writing*, a gyhoeddwyd yn 1944, y gwelodd Waldo Williams y gerdd – ac arwydd go gryf, at hynny, fod Waldo hefyd wedi darllen 'Not Love Perhaps', sy'n ymddangos ar yr un tudalen. Y mae'n werth dyfynnu hon yn ei chyfanrwydd:

This is not Love perhaps – Love that lays down
 Its life, that many waters cannot quench, nor the floods drown –
 But something written in lighter ink, said in a lower tone:
 Something perhaps especially our own:
 A need at times to be together and talk –
 And then the finding we can walk
 More firmly through dark narrow places
 And meet more easily nightmare faces:
 A need to reach out sometimes hand to hand –
 And then find Earth less like an alien land:
 A need for alliance to defeat
 The whisperers at the corner of the street:
 A need for inns on roads, islands in seas, halts for discoveries to be shared,
 Maps checked and notes compared:
 A need at times of each for each
 Direct as the need of throat and tongue for speech.²³

- 21 McCulloch, "'Not Love Perhaps . . .'", 14–15; Andrew McCulloch, 'A. S. J. Tessimond: A Tribute', <<http://www.faber.co.uk/content/tessimond-tribute>> [cyrchwyd 4 Awst 2013]; Mark Ford, 'The Analyst is Always Right', *London Review of Books*, 33.22 (17 Tachwedd 2011), 23–25; Bainbridge, 'A. S. J. Tessimond (1902–62)', <<http://bloodaxeblogs.blogspot.co.uk/2012/07/asj-tessimond-1902-62-by-james.html>> [cyrchwyd 14 Awst 2013]; James Bainbridge, 'Your Secret Final Self', *The Reader*, 45 (Gwanwyn 2012), 49–56. Perthnasol yma hefyd yw nodi'r proffil o Tessimond gan y bardd Brian Patten a ddarllwyd yn y gyfres *Lost Voices* ar BBC Radio 4 (cyfres 2, rhaglen 1) ar 11 Ebrill 2010, ynghyd â'r cerddi newydd a'r ohebiaeth a geir yn *Night Club Girl: Six New Poems and a Letter to Beatrice Warde* (Quenington: Reading Room Press, 2011).
- 22 *Morning Meeting: Poems by A. S. J. Tessimond*, gol. Hubert Nicholson (London: Autolycus, 1980), t. 21.
- 23 A. S. J. Tessimond, 'Not Love Perhaps', *The Penguin New Writing*, 21, t. 99. Cynhwyswyd y gerdd dair blynedd yn ddiweddarach gan Tessimond yn *Voices in a Giant City* (London: Heinemann, 1947), t. 33, ac fe'i casglwyd hefyd yn *Selection* (London: Putnam, 1958), t. 22.

Megis ‘First Meeting: *To Diane*’, cerdd serch, fel y gwelir – neu’n hytrach, gerdd serch amgen, un sydd, fe ellid dweud, yn myfyrio ar y genre ei hun – yw ‘Not Love Perhaps’,²⁴ a hoffwn awgrymu yn y fan hon, yng nghyd-destun y tebygolrwydd cryf fod Waldo Williams wedi gweld *The Penguin New Writing*, 21, fod dylanwad yr olaf i’w ganfod ar un o gerddi serch Waldo ei hun, sef ‘Oherwydd ein Dyfod’, a welodd olau dydd am y tro cyntaf yn *Dail Pren* yn 1956. Tystia R. M. Jones fod y gerdd hon gan Waldo yn un a ysgogwyd gan ‘argyfwng’ yn hanes y bardd, sef marwolaeth ei wraig Linda yn 1943:²⁵

Oherwydd ein dyfod i’r ystafell dawl,
Yn yr ogof ddiamser yr oedd,
A’n myned allan i fanfrig gwreiddiau
Ac i afalau perllannoedd;
A’n myned allan trwy’r wythien dywyll
I oleuni yr aelwydydd
A mi’n dilyn y galon gynnes[,]
Seren fy nos a rhin fy nydd . . .

A chusan yn dychwel hyd bob seren
Eigion yr archipelágo,
A dwyfron yn adnewyddu daear
A dwy fraich yn gysgod y fro;
Oherwydd ein dyfod i’r tŷ cadarn
A’i lonydd yn sail i lawenydd ein serch
A dyfod y byd i’r dyfnder dedwydd
O amgylch sŵn troed fy eurferch.²⁶

Agwedd bwysig ar y gerdd a ddenodd sylw amryw feirniaid yw ei chyfeiriadaeth lenyddol. Cynigiodd R. Geraint Gruffydd fod yma adleisiau o rai o’r mythau Groegaidd (pwynt allweddol y cawn ddychwelyd ato),²⁷ a thynnodd Alan Llwyd sylw, wrth osod y gerdd yng nghyd-destun ymwybyddiaeth tri bardd Rhamantaidd mawr o undod cydymdeimladol popeth byw, nid yn unig at gyfres drawiadol o analogau a pharalelau llenyddol, ond hefyd, yn fwy penodol, at y tebygrwydd arwyddocaol – a hynny o ran syniadaeth, delweddaeth a geiriad – rhwng rhai o

24 Perthnasol yma yw cyfeirio at farn Edrica Huws, mewn adolygiad ar gyfrol Tessimond, *Selection* (1958), yn *The Anglo-Welsh Review*, 9.24, 51–54 (t. 51): ‘His best poems [...] are more often than not his Love poems’.

25 R. M. Jones, *Cyfriniaeth Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994), tt. 246–47, 259. Gweler yn ogystal yr hanesyn (a gafwyd gan Waldo ei hun) a adroddir gan Jones, *ibid.*, t. 247, mewn perthynas ag ‘Oherwydd ein Dyfod’. Hanesyn yw hwn a drafodir gan Jones hefyd yn Hefin Wyn, *Ar Drywydd Waldo ar Gewn Beic* (Talybont: Y Lolfa, 2012), t. 175, lle y cynigir y dyddiad 1949 ar gyfer y digwyddiad dan sylw.

26 Waldo Williams, ‘Oherwydd ein Dyfod’, *Dail Pren*, t. 40.

27 R. Geraint Gruffydd, ‘“Oherwydd ein Dyfod”: Cais ar Ddehongliad’, yn *Waldo Williams: Cyfres y Meistri* 2, gol. Robert Rhys (Abertawe: Christopher Davies, 1981), tt. 133–36 (tt. 134–36). Gweler hefyd Dafydd Owen, *Dal Pridd y Dail Pren* (Llanbybïe: Llyfrau’r Dryw, 1972), t. 67.

linellau cerdd Waldo a thestunau gan George Rees, Shelley a Wordsworth.²⁸ Y mae 'Oherwydd ein Dyfod' yn gerdd gymhleth, helaeth ei chyfeiriadaeth – elfen sydd, yn ddiâu, ynghlwm wrth natur hynod ddwys a phersonol y profiad a'i hysgogodd. Yn wir, buddiol yw synio am y rhyngdestunoldeb yn y cyswllt hwn – y dweud tafleisiol, amlffynonellol a'r mynegiant grymus ond anuniongyrchol yr un pryd – fel un o'r pennaf strategaethau a'i gwnaeth hi'n bosibl i Waldo roi llafar i'r profiad hwn, a ffurf farddonol arno. (Da y nododd R. Geraint Gruffydd: 'Y mae hon yn gerdd anodd dros ben, ac yr wyf yn tybio mai dyna pam y caniatodd Waldo Williams iddi ymddangos: y mae ei hanhawster yn help i bellhau'r profiad a fynegir ynddi ac i bylu rhywfaint ar ei fin.'²⁹) Gellir yn awr ychwanegu testun pellach hollbwysig at y *nexus* hwn o weithiau llenyddol a adleisir yn 'Oherwydd ein Dyfod', sef cerdd A. S. J. Tessimond, 'Not Love Perhaps'.

Y mae'r llinynnau cyswllt delweddol rhwng y ddwy gerdd serch hyn yn drawiadol. Noder i ddechrau, er enghraifft, gryfed yw'r gyfatebiaeth rhwng y disgrifiad o'r cariadon yn 'Oherwydd ein Dyfod' yn 'myned allan trwy'r wythien dywyll' a'r darlun yng ngerdd Tessimond o'r cariadon yn cerdded 'through dark narrow places'. Cafwyd llawer o drafod gan feirniaid ynghylch ffynhonnell ac arwyddocâd y gair 'archipelágo' – môr ac ynddo nifer o ynysoedd – yng ngerdd Waldo: fe'i dehonglwyd gan R. Geraint Gruffydd, er enghraifft, fel term a ddefnyddiwyd er mwyn awgrymu'r Môr Egeaidd a thrwy hynny arwain y darllenydd yn ôl i'r byd Clasurrol ac i diriogaethau mytholegol, ac efallai er mwyn dwyn i gof hefyd 'y môr o gwmpas gwlad Llŷn, lle y bu'r bardd a'i wraig yn byw am gyfnod'.³⁰ Arall yw dehongliad Alan Llwyd, a wêl 'archipelágo' Waldo yn nhermau un o'i ystyron penodol, sef ynysoedd folcanig: 'mae llosgfynyddoedd wedi cadw peth o ferw ffrwydrol y creu gwreiddiol. Dyma gariad rhwng dau sy'n dirwyn yn ôl i'r dechreuad, ac yn ymestyn o'r ystafell dawel i'r bydysawd.'³¹ Eithr gan Tessimond, fe ddadleuaf, y cafodd Waldo'r ddelwedd gofiadwy hon o fôr ac ynddo lawer o ynysoedd: yn 'Not Love Perhaps' fe ddiffinnir y berthynas rhwng y ddeuddyn yn benodol yn nhermau 'A need for [...] islands in seas'. A cheir yma gyfatebiaethau eraill allweddol. Ystyrier, er enghraifft, y modd y mae'r ddelwedd honno yng ngerdd Waldo o'r cariad rhyngddo ef a Linda yn 'adnewyddu daear' yn cyd-daro'n drawiadol â'r ffaith fod y berthynas dawel-gariadus rhwng y ddau yn 'Not Love Perhaps' yn golygu eu bod yn awr yn medru canfod 'Earth less like an alien land'. Ac y mae mwysair awgrymog Waldo, 'lonydd', yn y llinell 'A'i lonydd yn sail i lawenydd ein serch', lle y cyfunir y cysyniadau o dawelwch a llonyddwch ar y naill law ac o symudiad, tramwyfeydd a ffyrdd ar y llall, hefyd yn ein harwain yn ôl at Tessimond, ac at y cyfeiriad at gariadon ar eu taith: 'A need for inns on roads [...] halts for discoveries to be shared.'

28 Alan Llwyd, "'Oherwydd ein Dyfod': "Undod y Byd" a Chariad Cyfanfydol yng Ngwaith Waldo Williams', yn *Cofac Arwydd*, gol. Walford Davies a Walford Davies, tt. 108–35 (tt. 119–20, 123, 128).

29 Gruffydd, "'Oherwydd ein Dyfod'", tt. 133–34. Gweler hefyd J. E. Caerwyn Williams, 'Yng Nghysgod *Dail Pren*', yn *Waldo: Cyfrol Deyrnged i Waldo Williams*, gol. James Nicholas (Llandysul: Gwasg Gomer, 1977), tt. 105–176 (t. 174).

30 Gruffydd, "'Oherwydd ein Dyfod'", t. 134. Nodir yr un cysylltiadau gan Dafydd Owen, *Dal Pridd y Dail Pren*, t. 67.

31 Llwyd, "'Oherwydd ein Dyfod'", t. 119.

Yn ogystal â'r cyfatebiaethau delweddol hyn, noder hefyd y llinynnau cyswllt strwythurol arwyddocaol a welir rhwng 'Not Love Perhaps' ac 'Oherwydd ein Dyfod'. Go brin mai cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith mai cerddi o un llinell ar bymtheg yw'r ddwy, ac, at hyn, mai un frawddeg estynedig a geir yn y ddau achos. Yn wir, yng ngoleuni hyn oll, diddorol, ymhellach, yw holi pa rôl a chwaraewyd gan linell gyntaf y gerdd arall honno gan Tessimond ar yr un tudalen yn *The Penguin New Writing*, 21, 'First Meeting: *To Diane*' – 'When I first met you I knew I had come at last home' – ynghyd â'r mynych ailadrodd ar y gair 'home' yn y gerdd, yn achos llinell agoriadol 'Oherwydd ein Dyfod' a phwyslais diffiniol Waldo yn y myfyrdod hwn ar ei hyd ar ddyfod i'r tŷ ac i'r cartref: 'Oherwydd ein dyfod i'r ystafell dawl', 'I oleuni yr aelwydydd', 'Oherwydd ein dyfod i'r tŷ cadarn'.³² Ac yng nghyswllt llinell gyntaf cerdd Waldo yn benodol, fe ddichon yn wir – arwydd o'r awgrymusedd enigmataidd cyfoethog sydd i 'Oherwydd ein Dyfod' – fod grymoedd cyfeiriadol pellach ar waith yma yn ogystal. Y tu ôl i linell agoriadol y gerdd, 'Oherwydd ein dyfod i'r ystafell dawl', oni ellir clywed yn dra hyglyn linell agoriadol John Donne yn ei 'Hymn to God My God, in My Sickness': 'Since I am coming to that holy room'³³ Y mae'r gyfatebiaeth o ran cystrawen y ddwy linell yn drawiadol, ac, at hyn, fe geir yn serenedd myfyrdodus 'Hymn to God My God' (a hynny yng nghyd-destun cyflwr o adfyd), a hefyd yn ei phwyslais ar archwilio paradocsau a chyflyrau pegynol, dir cyffredin pellach rhyngddi a cherdd Waldo i'w wraig. A cheir agwedd gystrawennol arall hynod awgrymus y tâl inni alw sylw ati yng nghyswllt y ddwy gerdd hyn. Ar ôl y 'Since I am coming' dechreuol hwnnw yn 'Hymn to God My God', fe'n gorfodir i aros am sawl llinell cyn dod ar draws prif ferf – ffaith sy'n dwyn perthynas ddadlennol ag un o bennaf nodweddion 'Oherwydd ein Dyfod', sef ei chystrawen isgymlog, anorffen, ramadegol anghyflawn. Bu i fyfyrddod mawr Donne, fe hoffwn awgrymu, chwarae rhan allweddol nid yn unig yn achos delweddau gychwynnol 'Oherwydd ein Dyfod', ond hefyd yn achos ei strwythur cystrawennol anarferol. Dyma felly ychwanegu haen gyfeiriadol arall i'r palimpsest hwn o gerdd.

Dylid nodi pwynt pellach yma ynghylch 'Not Love Perhaps', sef ei harwyddocâd fel cerdd sy'n archwilio'r cysyniad o berthynas yn erbyn cefndir rhyfel (1944, fe gofir, yw dyddiad y rhifyn hwnnw o *The Penguin New Writing* lle'r ymddangosodd gyntaf). Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yr oedd Tessimond, a defnyddio ymadrodd Waldo yn 'Mewn Dau Gae', yn '[dd]ihangwr o'r byddinoedd'.³⁴ 'When my call-up came,' meddai'r bardd yn ei ddyddlyfr, a ddarganfuwyd yn ddiweddar, 'I ignored it. I argued that a neurotic coward like me would be more a hindrance than help to the armed forces. And a life without privacy would be like going back to a public school.'³⁵ Aeth y bardd i ymguddio – 'I lay low, became a deserter,' meddai³⁶ – gan fabwysiadu cyfres o aliasau, rhoi'r gorau i'w swydd a'i fflat a cheisio byw o olwg

32 Diddorol yn y cyd-destun hwn yw nodi defnydd cyson A. S. J. Tessimond o ddelweddau yn ymwneud â thai ac ystafelloedd, yn arbennig felly yn ei gyfrol gyntaf, *The Walls of Glass* (1934).

33 *John Donne: Selected Poems*, gol. Richard Gill (Oxford: Oxford University Press, 1990), t. 49.

34 Waldo Williams, 'Mewn Dau Gae', *Dail Pren*, t. 27.

35 Gweler Bainbridge, 'Your Secret Final Self', 5.

36 Ibid.

yr awdurdodau milwrol â chymorth rhai o'i gyfeillion.³⁷ 'When finally he submitted to his medical,' meddai ei gyfaill Hubert Nicholson, 'he was rejected as unfit.'³⁸ Dyma'r cefndir y mae'n fuddiol gosod 'Not Love Perhaps' yn ei erbyn. Cerdd ydyw sy'n ymateb i 'nightmare faces' yr Ail Ryfel Byd drwy ddarganfod lloches yn y serch tawel ond dwys, anramatig ond ystyrion, rhwng dau ('Something perhaps especially our own', chwedl Tessimond) – a hyn mewn gwrthgyferbyniad â pherthynas a nodweddir gan 'Love' (priflythrennog), sef cariad ar ei wedd gyhoeddus, ryferthwyol, ddelfrydoledig neu (hunan)aberthol.³⁹ Noder hefyd – a diau fod hon yn nodwedd a fyddai wedi denu sylw Waldo – y modd y meddiennir geirfa ryfel gan y llefarydd, a'i rhoi ar waith ym mrwydr y cariadon yn erbyn y grymoedd allanol sy'n bygwth eu serch. Sonnir, er enghraifft, am 'alliance' y ddau, 'to defeat | The whisperers at the corner of the street', ac yn lle'r 'Halt!' milwrol gorchmynnol a mapiau a nodiadau'r meysydd cad, ceir yma 'halts' y cariadon eu hunain ar eu teithiau, 'for discoveries to be shared, | Maps checked and notes compared'. Mewn gwrthgyferbyniad â diwylliant gwyladwriaethol y rhyfel a'r llefaru cyfrinachol, cudd – 'The whisperers at the corner of the street' y gerdd hon, 'Careless Talk Costs Lives' y posteri – fe gysylltir y berthynas rhwng y cariadon yng ngherdd Tessimond yn uniongyrchol â lleferydd, y weithred o gyfathrebu a mynegiant (llenyddol): 'written in lighter ink, said in a lower tone', 'A need at times to be together and talk', 'Direct as the need of throat and tongue for speech'. Ceir yn 'Not Love Perhaps', felly, ddarlun cofiadwy o adnabyddiaeth ddwys a serch preifat rhwng dau fel grymoedd sy'n cynnig noddfa rhag erchyllterau allanol, ac y mae tynnu sylw fel hyn at syniadaeth, persbectif a thechnegau Tessimond yn y gerdd hon yn esbonio ymhellach pam y denwyd Waldo Williams ati, a pham y gweithredodd elfennau ohoni fel catalyddion mor bwerus yn achos ei fyfyrdod ar ddwyser ei serch ef a Linda yn 'Oherwydd ein Dyfod'.

Cryfheir ymhellach y cysylltiad bywiol rhwng gwaith Waldo a *The Penguin New Writing*, 21 o graffu ar y cyfraniadau eraill a geir yn y gyfrol. Buan y daw'n amlwg fod sawl un o'r darnau hyn, yn gerddi, straeon byrion ac ysgrifau beirniadol, hwythau wedi bod yn ddylanwadau creadigol allweddol ar y bardd, ac y mae'r berthynas drawiadol o agos rhwng nifer helaeth o'r cyfraniadau a rhai o gerddi amlycaf Waldo yn tystio'n groyw i'r ffaith ei fod yn gyfarwydd â'r rhifyn hwn yn ei gyfanrwydd. Yr hyn sydd gennym yma, fel y byddaf yn dangos, yw casgliad arwyddocaol, o fewn yr un gyfrol, o destunau Saesneg o amrywiol fathau y gwelir eu heffaith gatalytig, ysgogol yn glir ar rai o gerddi mwyaf Waldo Williams. Darganfu'r bardd yn y cyfraniadau hyn i *The Penguin New Writing*, 21 rwydwaith o ddelweddau, motiffau, themâu a sefyllfaoedd barddonol a fu'n rymus ei afael ar ei feddwl a'i ddychymyg ac a'i hysgogodd i ymateb yn greadigol-ddychmygus iddo mewn cerddi sydd ymhlith ei ddarnau aeddfetaf a mwyaf soffistigedig. Gwelir yma wedd newydd ddadlennol ar y cysyniad diffiniol-Waldoaidd hwnnw o rwydwaith: y mae'r matrices o destunau o *The Penguin New Writing*, 21 a welir ar waith yng ngherddi'r bardd yn ymgawdoliad ac yn ddramateiddiad, ar lefel ryngdestunol,

37 Gwelir sylwadau Hubert Nicholson, *The Collected Poems of A. S. J. Tessimond*, t. xvii.

38 Ibid.

39 Sylwer ar yr adlais o Ioan 15.13 yn llinellau agoriadol y gerdd – adnod a gymhwysir yn aml at aberth yn nghyd-destun rhyfel, perthnasol yw nodi.

o'r estheteg gydgyssylltiol, gyfannol sydd wrth wraidd barddoneg Waldo Williams. A phriodol yng nghyswllt dylanwad testunau'r gyfrol ar Waldo yw tynnu sylw, yn y lle cyntaf, at y ffaith fod y rhifyn dan sylw yn cynnwys cyfraniadau gan ddau ffigwr Eingl-Gymreig adnabyddus. Ceir gan B. L. Coombes stori fer, 'Thick Candles', am farwolaeth glöwr mewn damwain yn y pwl⁴⁰ (diddorol yw nodi mai i olygydd *The Penguin New Writing*, John Lehmann, y cyflwynodd Coombes ei hunangofiant, *These Poor Hands*, yn 1939⁴¹), ac un o'r cyfraniadau mwyaf trawiadol yn y 'Poetry Supplement' ar ddiwedd y rhifyn yw 'The Shadow Remains' Lynette Roberts,⁴² darlun aflonyddol o ofod domestig, a cherdd sy'n cyfeirio'n gynnil at golli plentyn.⁴³

Ymhlith y cyfraniadau eraill i'r rhifyn y mae cerdd Stephen Spender, 'A Man-made World'.⁴⁴ Cyfeiriwyd eisoes at ffynonellau cyfeiriadol posibl (Tessimond, Donne) yn achos llinell agoriadol 'Oherwydd ein Dyfod' – 'Oherwydd ein dyfod i'r ystafell dawl' – a buddiol yn y fan hon yw oedi i nodi posibilrwydd arall trawiadol yn y cyswllt hwn, sef dylanwad o du agoriad y gerdd hon gan Spender. Egyr 'A Man-made World' â'r llinellau 'What a wild room | We enter' – delwedd sy'n awgrymu cyswllt uniongyrchol ag agoriad 'Oherwydd ein Dyfod', ac y mae'r llinellau dilynol yn y gerdd Saesneg, 'when the gloom | Of windowless night | Shuts out all light', yn rhywm o ddwyn i gof y llinellau dilynol yng ngherdd Waldo, a'u defnydd hwythau o ddelweddau yn ymwneud â thywyllwch a goleuni: 'Yn yr ogof ddiamses yr oedd', 'A'n myned allan trwy'r wythien dywyll | I oleuni yr aelwydydd'.⁴⁵ Yn ogystal, arwyddocaol mewn perthynas ag 'Oherwydd ein Dyfod', lle y ceir gan Waldo y ddelwedd ganolog o ddilyn 'Seren fy nos', yw'r cyfeiriad yn 'A Man-made World' at fod mewn tywyllwch 'With no guiding star'. Yr hyn a geir gan Spender yw darlun cofiadwy o fod mewn lloches cyrch awyr yn ystod y bomio (hon yw 'ystafell' – 'malicious box' – y gerdd), a dyma awgrymu yn y fan hon y gellir gweld 'Oherwydd ein Dyfod' fel cerdd sy'n ymateb yn uniongyrchol i 'A Man-made World' drwy wrth-droi delweddau'r olaf fesul un, gan wneud yr hyn sy'n fygythiol, yn rhyfelgar-ymosodol ac yn hunllefus yng ngherdd Spender yn heddychlon a chadarnhaol. Sylwer, er enghraifft, sut y caiff y ddelwedd honno ar ddiwedd y llinell gyntaf o'r 'wild room' ei hateb, a'i heddychu, yn 'ystafell dawl' Waldo Williams, yn yr un man yn union yn ei gerdd ef; noder ymhellach sut y try'r ofnadwyaeth a gyfleir gan Spender yn sgil y carcharu yn nhywyllwch y lloches cyrch awyr yn ddathliad gan Waldo o'i daith fywiol yng

40 B. L. Coombes, 'Thick Candles', *The Penguin New Writing*, 21, tt. 45–48.

41 B. L. Coombes, *These Poor Hands: The Autobiography of a Miner Working in South Wales* (London: Gollancz, 1939): 'Dedicated to John Lehmann (Editor of *New Writing*) who cheered me by publishing my first short stories and who encouraged me to write this book.'

42 Lynette Roberts, 'The Shadow Remains', *The Penguin New Writing*, 21, t. 156.

43 Gweler *Lynette Roberts: Collected Poems*, gol. Patrick McGuinness (Manchester: Carcanet, 2005), t. 137.

44 Stephen Spender, 'A Man-made World', *The Penguin New Writing*, 21, t. 49.

45 Diddorol yma yw cyfeirio at gerdd arall yn yr un rhifyn sydd hithau'n defnyddio'r ddelwedd o ddyfod i ystafell, ac o oleuni a thywyllwch, sef 'The Divided Ways (In Memory of Sidney Keyes)' gan John Heath-Stubbs, sy'n agor drwy ddatgan, 'He has gone down into the dark cellar | To talk with the bright-faced Spirit', ac sy'n gorffen â'r llinellau canlynol: 'This abstract music will not bring again | My friend to his warm room. | Inscrutable the darkness covers him.' Gweler *The Penguin New Writing*, 21, tt. 81–82.

nghwmni Linda o dywyllwch i oleuni;⁴⁶ a sut yr ymrithia Linda i Waldo fel seren arweiniol – yr union oleuni achubol sydd ar goll yn 'A Man-made World' Spender: 'In darkness where we are | With no guiding star, | We hear the world we made | Pay back what we paid.'

Y mae'n ffaith arwyddocaol, yng nghyd-destun marwolaeth Linda yn 1943 a chefnidir 'Oherwydd ein Dyfod', fod nifer drawiadol o'r cyfraniadau yn *The Penguin New Writing*, 21 yn destunau sy'n sôn am golli gwagedd – ac am wragedd yn dychwelyd o farw'n fyw. Mewn ysgrif yn y rhifyn hwn ar farddoniaeth Edith Sitwell, ceir gan Henry Reed drafodaeth ar yr olaf o'i *Four Elegies*, sef 'The Ghost Whose Lips Were Warm', cerdd a ddisgrifir ganddo fel 'a small masterpiece'.⁴⁷ Monolog ddramatig ydyw lle y disgrifia'r llefarydd ei wraig ymadawedig, flwyddyn wedi ei marwolaeth, yn ymweld ag ef ac yntau yn ei wely, ac yn ei gusanu. Dyma ddyfodiad arall, fe ellid dweud, i 'ystafell dawel'. Rhydd Reed ddyfyniadau helaeth o gerdd Sitwell yn ei ysgrif, yn cynnwys y rhan ganlynol:

'And oh, her lips were warm to me.
And so I feared it, dared not touch and see

If still her heart were warm . . . dust-dun, death-cold
Lips should be from death's night. I dared not hold

That heart that came warm from the grave . . . afraid
I tore down all the earth of death, and laid

Its endless cold upon her heart.
[...]

My dead love gave
Lips warm with love though in her grave.

I stole her kiss, the only light
She had to warm her eternal night.'⁴⁸

Y mae tair o'r delweddau llywodraethol yn y fan hon yn y darlun o ymweliad y wraig a fu farw – y galon gynnes, goleuni a thywyllwch, a'r gusan – yn dod â delweddau canolog (a dathliadol) 'Oherwydd ein Dyfod', cerdd Waldo i'w wraig, i'r meddwl yn syth: 'A mi'n dilyn y galon gynnes', 'A'n myned allan trwy'r wythien dywyll | I oleuni yr aelwydydd', 'A chusan yn dychwel hyd bob seren'. Yn wir, yn achos y ddelwedd enigmataidd olaf hon, lle y caiff cusan a'r cosmig eu cyfuno, ystyriaeth sy'n ennyn chwilfrydedd yw'r posibilrwydd fod yma ddyllanwad penodol o du delwedd arall o'r un gerdd gan Sitwell a ddyfynnir

46 Ar y symudiad hwn yn 'Oherwydd ein Dyfod' ac yng ngwaith Waldo yn gyffredinol, gweler Llwyd, "'Oherwydd ein Dyfod'", tt. 118–19, ac astudiaeth yr un awdur, 'Waldo Williams: "O Bridd" gyda Golwg ar Rai Cerddi Eraill', yn *Rhyfel a Gwrthryfel: Brwydr Moderniaeth a Beirdd Modern* ([Abertawe]: Cyhoeddiadau Barddas, 2003), tt. 360–95 (tt. 371–79).

47 Henry Reed, 'The Poetry of Edith Sitwell', *The Penguin New Writing*, 21, tt. 109–22 (t. 119).

48 *Ibid.*, t. 120.

gan Reed yn yr ysgrif: ‘for there is always one | Kiss that we take to be our grave’s long sun.’⁴⁹

Ar ddiwedd ei drafodaeth ar ‘The Ghost Whose Lips Were Warm’ Edith Sitwell, gwelir Henry Reed yn nodi’r hyn a wêl fel ‘the haunting echoes’ ynddi o gerdd arall am wraig ymadawedig, sef ‘Exequy on His Dead Wife’, marwnad Henry King (1592–1669) i’w wraig Ann, a fu farw yn 1624.⁵⁰ Y mae’r llinynnau cyswllt testunol yn awr yn amlhau, oherwydd yn y cyfraniad sy’n dilyn eiddo Reed yn *The Penguin New Writing*, 21, sef ysgrif ar ‘Poets and Politics in Baroque England’, gwelwn fod C. V. Wedgwood hithau’n trafod marwnad King. Teifl yr Ail Ryfel Byd, yn anorfod, ei gysgod dros lawer iawn o’r cyfraniadau i’r rhifyn hwn yn 1944, a gwelir Wedgwood yn ei hastudiaeth yn dyfynnu’r llinellau ‘But hark! My pulse like a soft drum | Beats my approach, tells thee I come. | And slow howe’er my marches be, | I shall at last sit down by thee’ o’r ‘Exequy’, ac yna’n nodi, gan sicrhau yn y fan hon berthnasedd cyfoes aflonyddol, ‘The military simile has a hint of menace in King’s peaceful elegy on his wife.’⁵¹

Erys un testun o blith y grŵp trawiadol hwn o gyfraniadau sy’n ymwneud â marwolaeth ac ailddyfodiad gwragedd, sef ‘The Revenant’ C. Day Lewis. Y mae hon yn gerdd allweddol, nid yn unig o ran y goleuni a deifl ar strwythur a delweddaeth ‘Oherwydd ein Dyfod’, ond hefyd o ran y cymorth a rydd wrth inni ystyried dilysrwydd damcaniaeth ddi-ddorol a gynigiwyd gan R. Geraint Gruffydd ynghylch cefndir cyfeiriadol cerdd Waldo. Yn ei astudiaeth ar ‘Oherwydd ein Dyfod’, dadleuodd Gruffydd, yn bennaf ar sail ei ddehongliad ef o arwyddocâd y gair ‘archipelágo’ yn y gerdd, mai ‘yn y byd Groegaidd y mae ceisio’r allwedd iddi, ac yn enwedig ym myd y mythau Groegaidd’, gan fynd rhagddo i nodi ‘nad benthgry yr un o’r mythau Groegaidd yn ei grynsyth a wnaeth y bardd. Yn hytrach fe greodd ei fyth ei hun, ac yna ddarganfod ei fod yn cyfateb mewn amryw fannau i rai o’r mythau Groegaidd cynefin.’⁵² Cynigiodd Gruffydd fod Waldo yn adleisio elfennau o’r mythau yn ymwneud â Theseus ac Ariadne, a Demeter a Perseffone, gan awgrymu hefyd ar ddiwedd ei astudiaeth fod yma gyswllt â stori Orffews ac Ewridice.⁵³ Fel y dywed Gruffydd yng nghyswllt yr olaf:

Bu Ewridice farw, ond fe swynodd Orffews Hades â’i gân i sicrhau ei gollyngdod o’r isfyd – ar yr amod nad edrychai’n ôl arni wrth iddi ei ddilyn i fyd y rhai byw. Torrodd yr amod, a cholodd Ewridice am byth. Galarodd amdani gymaint nes digio gwragedd Thrace, a

49 Ibid. Perthnasol hefyd yw tynnu sylw at linellau pellach o ‘The Ghost Whose Lips Were Warm’ sy’n ymddangos yn ysgrif Reed (t. 119) – “‘The ice, weeping, breaks, | But my heart is underground. | And the ice of its dead tears melts never. Wakes | No sigh, no sound, || [...] When the spring nights [...] rest | Leaves on young leaves” – a hynny mewn perthynas â delweddaeth y llinellau enwog hynny o ‘Mewn Dau Gae’, a ymddangosodd gyntaf yn 1956: ‘Mawr oedd cydnaid calonau wedi eu rhew rhyn. | Yr oedd rhyw ffynhonnau’n torri tua’r nefoedd | Ac yn syrthio’n ôl a’u dagrau fel dail pren’; Williams, ‘Mewn Dau Gae’, *Dail Pren*, t. 27.

50 Reed, ‘The Poetry of Edith Sitwell’, *The Penguin New Writing*, 21, t. 120.

51 C. V. Wedgwood, ‘Poets and Politics in Baroque England’, *The Penguin New Writing*, 21, tt. 123–36 (t. 130).

52 Gruffydd, “‘Oherwydd ein Dyfod’”, t. 134.

53 Ibid., tt. 134, 135, 136.

ymosododd arno a'i ddryllio'n ddarnau. Ai canlyniad eithaf dyfodiad y bardd o'r 'ogof ddiamsr' yng nghwmni Linda oedd ei cholli hi a thorri ei galon yntau?⁵⁴

Cydnebydd Gruffydd fod anawsterau ac amwysedd ynghlwm wrth rai manylion yng nghyd-destun ei ddamcaniaeth ynghylch y mythau Groegaidd,⁵⁵ ac meddai wrth gloi'r ysgrif: 'rhaid pwysleisio mai fframwaith yn unig ar gyfer dehongliad a gynigir yma'.⁵⁶ Nid yw'r theori hon ynghylch adleisiau o fythau Groegaidd unigol yn 'Oherwydd ein Dyfod' yn argyhoeddi Alan Llwyd yn ei astudiaeth ef ar y gerdd – er ei fod, wedi pwysio a mesur y dystiolaeth, yn datgan: 'Byddwn yn fodlon derbyn fod y mythau Groegaidd yn rhyw fath o gefndir isleisiol, isymwybodol i'r gerdd, ond dim mwy na hynny'.⁵⁷

Y mae'r gerdd 'The Revenant', cyfraniad C. Day Lewis i *The Penguin New Writing*, 21, yn eithriadol o ddadlennol yn y cyswllt hwn.⁵⁸ Cerdd ydyw sydd, yn arwyddocaol, yn adrodd hanes Orffews yn arwain Ewridice o'r isfyd, ac yn ei cholli cyn iddi gyrraedd y byd hwn. Dyma destun cwbl allweddol yn achos delweddu canolog, thema gynhaliol ac egni cyfeiriadol 'Oherwydd ein Dyfod'. Ceir yng ngerdd Day Lewis ddarlun gafaelgar o'r gân hud sy'n tywys y wraig yn ôl i fyd y rhai byw, o benderfynoldeb Orffews ar y dechrau i beidio ag edrych yn ôl ar Ewridice, ac o daith aruthr y ddau o'r tywyllwch i'r goleuni ('lightwards led he'):

Out of the famous canyon
Deeper than sleep,
From the nerveless tarn of oblivion
She climbed. Dark was the slope,
And her companion
Gave not one love-glance back to brighten it.
Only a wind-chafed rope
Of melody held her
To him that haled her
Lifeward, praising the fire and delight in it.⁵⁹

Y mae'r daith yn 'Oherwydd ein Dyfod' o dywyllwch yr 'ogof ddiamsr', 'allan i fanfrig gwreiddiau', a '[th]rwy'r wythien dywyll | I oleuni yr aelwydydd', yn gymar agos i'r siwrnai fytholegol hon, ac yn ddehongliad ohoni. Awgrymaf fod stori Orffews ac Ewridice yn bresenoldeb cryf yn 'Oherwydd ein Dyfod' – a bod greddf R. Geraint Gruffydd felly'n gywir pan gysylltodd y chwedl hon â cherdd Waldo. A diddorol yw nodi fel y bu i Euros Lewis yntau, yn ei ddrama gyrhaeddgar *Linda (Gwraig Waldo)*, synhwyro perthnasedd y chwedl, a'r cysyniad ynddi o daith

54 Ibid., t. 136.

55 Ibid., tt. 135 (nodyn 1), 136.

56 Ibid., t. 136.

57 Llwyd, "'Oherwydd ein Dyfod'", t. 113.

58 C. Day Lewis, 'The Revenant', *The Penguin New Writing*, 21, tt. 70–71.

59 Ibid., t. 70.

(lythrennol, ysbrydol, emosiynol) ac o atgyfodiad, gan ddefnyddio hyn fel modd o archwilio perthynas ddwys Waldo â'i briod ac o ddadansoddi cyflwr seicolegol y bardd.⁶⁰ Eithr dyma ddangos yn awr am y tro cyntaf mai cerdd Day Lewis yn *The Penguin New Writing*, 21 a gyfryngodd y chwedl i Waldo mewn perthynas ag 'Oherwydd ein Dyfod'. A cheir ateg gref i'r ddadl hon ynghylch dylanwad 'The Revenant' ar y gerdd Gymraeg drwy graffu ar foment benodol yn y gyntaf sy'n goleuo'n euraid un o epithetau mwyaf llwyddiannus ac annisgwyl Waldo Williams, sef y disgrifiad o Linda fel 'fy eurferch' – term a osodir, sylwer, fel uchafbwynt i 'Oherwydd ein Dyfod'. Fel y dywedodd Anthony Conran: "“Eurferch” is perhaps the most surprising word in the whole poem. In terms of register it seems so different from the rest of the diction, and yet it is absolutely right".⁶¹ Gall 'eurferch', yn sicr ddigon, ein tywys yn ôl at gerddi serch y Cywyddwyr, fel y nododd Conran,⁶² ac y mae'r cysylltiad â'r corff brodorol hwn o ganu yn ddiau yn un o ddimensiynau adleisiol y gair yng ngherdd Waldo. Ond yng ngoleuni'r hyn a nodwyd eisoes ynghylch arwyddocâd 'The Revenant' mewn perthynas ag 'Oherwydd ein Dyfod', fe welir bod i 'eurferch' Waldo Williams hefyd ragredegydd mwy cyfoes, sef disgrifiad C. Day Lewis o Ewridice fel 'a golden wife'. Wele hi yn 'The Revenant' ar y ffin rhwng deufyd:

Glimmering tall through the gloom
 In her phantom garment,
 [...]
 She palely paused, on the verge of light again.
 One step to break from her cerement –
 Yes, daffodil-rayed
 From the mould of the shade –
 No revenant now, a golden wife again.⁶³

Na chollwn ychwaith arwyddocâd y 'One step' hwnnw gan Day Lewis mewn perthynas â chyfeiriad Waldo, ar y cyd â'r term 'eurferch' ar ddiwedd 'Oherwydd ein Dyfod', at 'sŵn troed': 'A dyfod y byd i'r dyfnder dedwydd | O amgylch sŵn troed fy eurferch'. Yn ogystal â hyn, dylid nodi bod y ddwy gerdd yn rhannu ymdeimlad cryf â phŵer trawsffurfiol y rhywiol a'r erotig – ar ffurf delweddu megis 'gwythien dywyll', 'rhin' (a all olygu cyfathrach rywiol), 'cusan' a 'dwyfron' yn 'Oherwydd ein Dyfod', a llinellau megis y canlynol yn 'The Revenant', sy'n disgrifio cân hudol Orffews ('the poignant distillation of all that Eros desires and promises', chwedl Albert Gelpi⁶⁴):

60 Yr wyf yn dra diolchgar i Euros Lewis am sgwrs fuddiol, 24 Hydref 2013, ynghylch ei ddefnydd o chwedl Orffews ac Ewridice yn y ddrama. Gweler *Linda (Gwraig Waldo) a Cof a Chalon* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2010), tt. 10–92, ac yn arbennig Act I, Golygfa 10 (tt. 52–56).

61 *Waldo Williams: The Peacemakers*, cyf. Tony Conran (Llandysul: Gomer Press, 1997), t. 31.

62 Ibid.

63 Day Lewis, 'The Revenant', *The Penguin New Writing*, 21, t. 70.

64 Albert Gelpi, *Living in Time: The Poetry of C. Day Lewis* (New York and Oxford: Oxford University Press, 1998), t. 130.

How else [...], with love-looks forbidden,
 Could he say, 'Come back to me, come' –
 Could he touch the long-hidden
 Spring of a shade unfleshed, unfertilised
 Than by singing, oh, crust and crumb,
 Bark, sap, flesh, marrow –
 Life's all, in the narrow
 Ambit of sense flowering, immortalised?⁶⁵

O'r foment hon, yr hyn a geir yn 'The Revenant' yw ailddehongliad gan C. Day Lewis o chwedl Orffews ac Ewidge, wrth i'r olaf, a hithau ar y trothwy, ddewis peidio â dychwelyd i fyd y rhai byw. 'Had death become then, already, | A habit too strong | For her to break? | The steady | Pulsing of Orpheus' song | [...] | Grew faint in her heart', meddir, ac, at hynny: 'She wept for astonishment, | Feared she could never belong | To life, be at home there, | Find aught but harm there, | Till that last step seemed less a birth than a banishment.'⁶⁶ Pa gainc yn rhaff cariad Orffews oedd yr un wan, gofynnir, a sut na fu i'w gân ryfeddol – 'a song which could melt the Dark One'⁶⁷ (daw'r enw â '[ch]ydymaith tywyll' 'Geneth Ifanc' i gof⁶⁸) – beri i Ewidge gamu yn ôl i'r byd hwn? Y canlyniad yw bod y cyswllt rhyngddynt yn ymddatod: 'He felt the cord parting, | The death wound smarting: | He turned his head but to glimpse the ghost of her.'⁶⁹ Bu i Day Lewis ailgastio'r chwedl Roegaidd wreiddiol, gan lunio yn 'The Revenant' alegori yn ymwneud â'i briodas ef (Orffews y gerdd) â'i wraig Mary (Euridice), a hyn yng nghyd-destun ei garwriaeth ar y pryd â'r nofelydd Rosamond Lehmann (a oedd yn chwaer i John Lehmann, golygydd *The Penguin New Writing*). 'He does not so much abandon her as she banishes herself', meddai Albert Gelpi am Orffews ac Ewidge cerdd Day Lewis: 'his desire goes forth as "hers" returns to Hades'.⁷⁰ Y mae hyn oll, wrth gwrs, yn tynnu sylw at ymateb creadigol Waldo Williams yn 'Oherwydd ein Dyfod' i 'The Revenant', ac yn dwyn i gof yr impetws trawsffurfiol hwnnw a welwyd ar waith yn achos ei ymateb i gerdd Spender yn yr un rhifyn o *The Penguin New Writing*. Hynny yw, fe'i gwelir yn ei gerdd i Linda yn mynd ati i ailddehongli, a gwrth-droi, nifer o'r safbwyntiau, y golygfeydd a'r sefyllfaoedd barddonol y daeth ar eu traws yng nghyfraniadau'r gyfrol hon o 1944. Trawsffurfir, felly, y darlun o rwyg aruthr, terfynol rhwng Orffews ac Ewidge, a rhwng C. Day Lewis a Mary Day Lewis, yn 'The Revenant' yn fyfyrdd yn 'Oherwydd ein Dyfod' ar angerdd adnewyddol a dwyster parhaol y cariad rhwng gŵr a gwraig sydd – ill dau, gyda'i gilydd – yn cyrraedd y golau ac yn camu i fyd newydd ('goleuni yr aelwydydd', 'adnewyddu daear'). Yn wir, ceir yng ngherdd Waldo wrthdroad llythrennol o un o hanfodion chwedl Orffews ac Ewidge, gan mai Linda, fe sylwn, sydd yn ei arwain ef yn y cyswllt hwn: 'A

65 Day Lewis, 'The Revenant', *The Penguin New Writing*, 21, t. 70.

66 Ibid., t. 71.

67 Ibid.

68 Williams, 'Geneth Ifanc', *Dail Pren*, t. 23.

69 Day Lewis, 'The Revenant', *The Penguin New Writing*, 21, t. 71.

70 Gelpi, *Living in Time*, t. 131.

mi'n dilyn y galon gynnes[,] | Seren fy nos a rhin fy nydd.'

Gwelir felly fod y testunau gan Tessimond, Spender, Sitwell, King a Day Lewis a geir yn *The Penguin New Writing*, 21 yn ffurfio matrices llenyddol soffistigedig – '[c]yflawn we', chwedl y gerdd 'Brawdoliaeth'⁷¹ – a fu'n gymorth allweddol i Waldo Williams wrth iddo, yn 'Oherwydd ein Dyfod', geisio crisialu a rhoi mynegiant barddonol cofiadwy i'w berthynas â Linda. Yr hyn sydd gennym yn y fan hon yw enghraifft drawiadol o gerdd unigol yn distyllu'n bwerus lu o wahanol elfennau o gasgliad tra amrywiol o ffynonellau. Bu i Anthony Conran gyfeirio at y 'flux of metaphors and dream-imagery' a geir gan Waldo yn 'Oherwydd ein Dyfod' – techneg sy'n mynd â'r darlennydd, meddai, 'to the extreme edge of his poetic'.⁷² Wrth wraidd techneg y fflycs delweddol yn y cyswllt hwn, fe awgrymaf, y mae dylanwad symbylol grymus y testunau unigol a ganfu Waldo Williams yn *The Penguin New Writing*, 21. Dyma, i Waldo, antholeg hynod greadigol ei hysgogiad. Ac y mae'n bwysig nodi bod y dylanwad hwnnw yn ymestyn y tu hwnt i 'Oherwydd ein Dyfod' a 'Geneth Ifanc', a'i fod ar waith hefyd yn 'Cwmwl Haf'. Dyma drindod, felly, o gerddi dwys ac eithriadol o bersonol y chwaraeodd *The Penguin New Writing* ran allweddol yn eu genesis. Ac megis yn achos 'Oherwydd ein Dyfod', fe welwn fod dylanwad o du mwy nag un o gyfraniadau'r rhifyn hwn i'w weld ar 'Cwmwl Haf' hithau – enghraifft bellach o afael storfa ddelweddau cyfrol 1944 ar Waldo Williams.

Cerdd yw 'Cwmwl Haf' y ceir dau holograff ohoni yng Nghasgliad D. J. Williams yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru; ar un ohonynt ceir y nodyn, 'Mis Gorff. 1947 mewn llythyr o Lyneham'.⁷³ Un o ddelweddau mwyaf aruthr y gerdd yw'r darlun o 'ysbryd cawr mawr' yn dod i lawr 'yn yr awr ni thybioch', 'Gan daro'r criw dringwyr o'u rhaffau cerdd'.⁷⁴ Y mae'r disgrifiad cofiadwy hwnnw o gân yr hedyddion, 'rhaffau cerdd', yn ein harwain yn ôl at 'The Revenant' C. Day Lewis, ac at ei ddisgrifiad ef o gân Orffews fel 'a [...] rope | Of melody'.⁷⁵ Ac amlhau a wna'r adleisiau yn 'Cwmwl Haf' o graffu ar y cyfraniad mwyaf sylweddol i *The Penguin New Writing*, 21, sef y stori fer 'Above the Clouds' gan y llenor a'r Comiwnydd John Sommerfield (1908–91), awdur y nofel *May Day* (1936). Egyr 'Above the Clouds', a leolir yn y mynyddoedd ger ffin Tibet, wrth i'r prif gymeriad – dringwr, a thraethydd y stori – gael ei rwystro rhag parhau â'i daith yn y mynyddoedd hynny gan ddyfodiad sydyn niwl trwchus: 'I had intended to climb higher, up into the snow, hoping for a glimpse of those great peaks beyond, but the weather made it impossible [...] The clouds were descending [...] the mist thickened into opacity, continuing its obliterating descent.'⁷⁶ Yn arwyddocaol, drwy gyfrwng darlun o ddringwyr (yr hedyddion) yn cael eu bwrw oddi ar eu rhaffau gan niwl sy'n disgyn dros y wlad y caiff argyfwng dirfodol Waldo ei ddramateiddio yn 'Cwmwl Haf'. Disgrifir y niwl trawsffurfiol hwn – niwl-nad-yw'n-niwl – yn

71 Waldo Williams, 'Brawdoliaeth', *Dail Pren*, t. 79.

72 *Waldo Williams: The Peacemakers*, t. 30.

73 Gweler B. G. Owens, 'Gweithiau Waldo Williams', yn *Waldo: Cyfrol Deyrnged*, gol. Nicholas, tt. 227–52 (t. 240).

74 Waldo Williams, 'Cwmwl Haf', *Dail Pren*, t. 48.

75 Day Lewis, 'The Revenant', *The Penguin New Writing*, 21, t. 70.

76 John Sommerfield, 'Above the Clouds', *The Penguin New Writing*, 21, tt. 27–44 (t. 27).

nhermau 'Distawrwydd llaith a llwyd'⁷⁷ – ymadrodd sy'n ymgysylltu'n awgrymog â chyfeiriad Sommerfield at 'a calm, grey obscurity'.⁷⁸ Yn wir, o graffu'n fanlyach ar 'Cwmwl Haf' ac 'Above the Clouds', gwelwn fod deialog gref – delwedd ac eco – yn datblygu rhwng y ddau destun. Dyma berthynas sydd – yng nghydestun y llynynnau cyswllt eraill niferus a nodwyd eisoes rhwng gwaith Waldo a *The Penguin New Writing*, 21, ac o ystyried hefyd, fel y cawn weld, adleisiau eraill hygryw o 'Above the Clouds' yn 'Cwmwl Haf' – yn awgrymu'n gryf fod portread John Sommerfield o effeithiau'r niwl yn elfen allweddol (yn ychwanegol at brofiad personol o realiti'r ffenomen naturiol, ac, fe ddichon, gerddi gan feirdd eraill⁷⁹) yn narlun enwog Waldo o'r niwl aflonyddol hwn. Yn sgil y niwl, meddai Sommerfield, 'There was nothing else';⁸⁰ 'Nid oes acw,' meddai Waldo.⁸¹ Y mae'n arwyddocaol, yng nghyswllt y modd yr esgora'r argyfwng dirfodol yn rhan ganol 'Cwmwl Haf' ar gyfres o rithweledigaethau hunllefus sy'n disodli unrhyw sicrwydd hunaniaethol ('Pwy wyf i?'⁸²), fod y prif gymeriad yn stori fer Sommerfield, a thwymyn wedi gafael ynddo, yntau yn dechrau rhith-weld pethau, ac, at hynny, yn clywed lleisiau:

I began to shiver again, my limbs ached, and under the skull something had started to throb sickeningly. The thin mountain air that, until one was used to it, made the ears ring and induced a sensation of light-headedness, allied itself with the fever's hallucinatory mood and gave a quality of dream-like super-reality, a painfully acute vividness of every sensation [...] I was muttering to myself, and there was an argument going on inside my head between two voices, both of which were my own.⁸³

Ymhlith y rithweledigaethau dychrynlyd a brofir yn 'Cwmwl Haf' y mae'r olygfa driffidaidd honno, 'Tyfodd y brwyn yn goed.'⁸⁴ Trawiadol yw'r cyswllt yn y fan hon â chyfeiriad Sommerfield at 'trees and tall reeds' ac at 'writhing stems that reared themselves from soft green floating leaves' yn ei ddisgrifiad o'r gwastatioedd islaw'r mynyddoedd.⁸⁵ Y cam cyntaf tuag at ymwared rhag y profiad ansadiol yn 'Cwmwl Haf' yw'r braso i '[r]ediad oer' y dŵr;⁸⁶ 'my eyes ached,' meddai'r traethydd yn stori Sommerfield, 'for the sight of [...] running water,' a cheir pwyslais yn y stori ar ei hyd ar bresenoldeb bywiol, adferol, oesol dŵr: 'The water was immortal, older and stronger than the mountains.'⁸⁷ Ymgorfforiad eithaf

77 Williams, 'Cwmwl Haf', *Dail Pren*, t. 48.

78 Sommerfield, 'Above the Clouds', *The Penguin New Writing*, 21, t. 27.

79 Yn achos yr olaf, gweler Alan Llwyd, "'Cwmwl Haf' Waldo Williams (o Safbwynt Barddoniaeth a Beirniadaeth Fodern)', yn *Y Grefft o Greu: Ysgrifau ar Feirdd a Barddoniaeth* ([Abertawe]: Cyhoeddiadau Barddas, 1997), tt. 1–22 (tt. 20–21).

80 Sommerfield, 'Above the Clouds', *The Penguin New Writing*, 21, t. 27.

81 Williams, 'Cwmwl Haf', *Dail Pren*, t. 49.

82 Ibid.

83 Sommerfield, 'Above the Clouds', *The Penguin New Writing*, 21, tt. 29, 42.

84 Williams, 'Cwmwl Haf', *Dail Pren*, t. 49.

85 Sommerfield, 'Above the Clouds', *The Penguin New Writing*, 21, tt. 28, 31.

86 Williams, 'Cwmwl Haf', *Dail Pren*, t. 49.

87 Sommerfield, 'Above the Clouds', *The Penguin New Writing*, 21, tt. 27, 35.

yr ymwared ar ddiwedd ‘Cwmwl Haf’, fe gofir, yw’r tŷ teuluol. Y mae’r tŷ, wrth gwrs, yn un o symbolau mawr a chyson barddoniaeth Waldo Williams, a dyma awgrymu’r posibilrwydd cryf fod ‘Above the Clouds’ wedi cynnig ysgogiad pellach i’r cyfeiriad hwn. Rhagfynegir lleoliad yr adferiad a geir ar ddiwedd ‘Cwmwl Haf’ gan y cyfeiriad yn y pennill cyntaf at ‘y tŷ sydd allan ym mhob tywydd’.⁸⁸ ‘[The] houses [...] were so weathered,’ meddai Sommerfield ynghylch anheddau’r dyffryn islaw, gan ychwanegu, ‘life here, it seemed, must surely go to a slow, untroubled rhythm of its own’⁸⁹ – disgrifiad sy’n gymar dadlennol i linell arall ar ddechrau ‘Cwmwl Haf’: ‘Enw’r hen le a tharddle araf amser.’⁹⁰

Gwelir felly fod ‘Above the Clouds’ John Sommerfield yn destun hollbwysig yn achos y broses greadigol a esgorodd ar ‘Cwmwl Haf’ yn 1947. Yn wir, i ba raddau, tybed, y gellir ystyried teitl y gerdd ei hun fel un o ‘switches’ goleuol, cyfeiriadol Waldo Williams,⁹¹ a hynny o ran y modd y mae’n ein cyfeirio’n ôl at yr elfennau ‘Sommer’ a ‘Cloud’ yn enw’r awdur ac yn y teitl ar frig y stori yn *The Penguin New Writing*, 21? Yn sicr ddigon, buasai sylwebaeth grafog Sommerfield yn y stori ar yr oruchwyliaeth Brydeinig yn isgyfandir India wedi bod yn atyniad cryf i Waldo Williams, fel awdur y llythyr huawdl o wrthymerodraethol ‘Friendship with India’ yn 1943, a cherdd fawl i Gandhi, ‘Eneidfawr’, yn 1948.⁹² Ac yntau’n ceisio lloches rhag y niwl ar feranda adeilad mewn pentref anhygyrch, clyw’r dringwr yn stori Sommerfield leisiau swyddogion y Raj a’u gwagedd – ‘the whole Kensington–Eastbourne–Rugger Team–Officers’ Mess–cum Bridge Party set-up’ – sy’n cymryd eu te prynhawn sidêt yn y pentref: ‘here they had come with their dogs and shooting sticks and fishing rods and golf clubs, their English tweeds and riding breeches, and established in this remote and cloud-encompassed spot a miniature pattern of their own world.’⁹³

Dangoswyd yn yr ysgrif hon fod archwilio *The Penguin New Writing*, 21 yn fodd o ddadlennu ffynhonnell gyfeiriadol newydd a thra ffrwythlon yn achos gwaith Waldo Williams. Yr ydym yn ymwneud yn y fan hon â rhai o’i gerddi dwysaf a mwyaf personol, ac, fel yr awgrymwyd, diau fod y weithred gyfeiriadol, adleisiol wedi bod yn strategaeth rwyddhaol allweddol iddo yn y cyswllt hwn wrth chwilio am y mynegiant priodol ar gyfer crisialu ei ymateb i farwolaeth ei wraig Linda a’i chwaer Morvydd, ac i’r argyfwng hunaniaethol ansadiol a ddramateiddir yn ‘Cwmwl Haf’. Cyfeiriodd R. Geraint Gruffydd at ddefnydd Waldo yn ‘Geneth Ifanc’ o’r ysgerbwdd a welsai’r bardd yn Amgueddfa Avebury – ‘symbol o golled ddwbl iddo’ – fel modd o ‘wrthrychu’r golled honno a’i phellhau oddi wrtho i ryw

88 Williams, ‘Cwmwl Haf’, *Dail Pren*, t. 48.

89 Sommerfield, ‘Above the Clouds’, *The Penguin New Writing*, 21, t. 32.

90 Williams, ‘Cwmwl Haf’, *Dail Pren*, t. 48.

91 Ar ‘switches’ y bardd, gweler ei sylwadau yn yr ‘Eglurhad ar “Mewn Dau Gae”’ (1958), yn *Waldo Williams: Rhyddiaith*, gol. Damian Walford Davies (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2001), tt. 87–89 (t. 89). Gweler hefyd Tudur Hallam, ‘“Cwmwl Haf” Waldo Williams a Theori’r “Switches”’, yn *Llenyddiaeth Mewn Theori*, gol. Owen Thomas (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt. 152–87.

92 Waldo Williams, ‘Friendship with India’, yn *Waldo Williams: Rhyddiaith*, tt. 294–96; Waldo Williams, ‘Eneidfawr’, *Dail Pren*, t. 89. Yn y ‘Sylwadau’ ar ddiwedd *Dail Pren*, noda Waldo: ‘Canwyd y gân hon ar y ffordd adref i Lyneham ar ôl bod gydag Indiaid Llundain yng nghwrdd coffa Gandhi’ (t. 120).

93 Sommerfield, ‘Above the Clouds’, *The Penguin New Writing*, 21, t. 30, 31.

raddau'.⁹⁴ Ac meddai James Nicholas:

Waldo did not include some of his most personal poems in *Dail Pren*. 'Oherwydd ein Dyfod' is one of the two love poems included and we can only speculate on the reason for its inclusion. The poet may have thought that, through the imagery used in the poem, he had succeeded in removing the immediacy of the experience away from the reader so that the poem could be judged objectively.⁹⁵

Fel y tystia'r astudiaeth bresennol, elfen greiddiol a chwbl anhepgor yn y broses hanfodol bwysig hon o wrthrychu sydd ar waith i raddau helaeth iawn yn 'Oherwydd ein Dyfod', a hefyd yn 'Geneth Ifanc' a 'Cwmwl Haf', yw'r allanoli tafleisiol sy'n ffrwyth defnydd Waldo o blethwaith cymhleth o adleisiau o'r gwahanol destunau yn *The Penguin New Writing*, 21 – cyfrol y bu i'r bardd bori'n ddwfn ynddi. Yr ydym yn hyn o beth yn dyst i ffenomen lenyddol hynod ddadlennol yn *oeuvre* y bardd. Nid oes amheuaeth na fu i'r cerddi serch hynny gan Tessimond yn y rhifyn dan sylw, y cyfraniadau trawiadol o niferus hynny sy'n ymdrin â gwragedd ymadawedig (a'u dychweliadau), ynghyd ag 'Above the Clouds' John Sommerfield sbarduno ymateb arbennig o gyfoethog gan Waldo. Yn y cerddi o'i eiddo a drafodwyd uchod, fe'i gwelir yn creu, drwy gyfrwng ei adleisiau o destunau'r rhifyn hwn o *The Penguin New Writing*, gyfres o 'raffau cerdd' rhyngdestunol, cydgysylltiol. Ac y mae'r enghreifftiau hynny lle'r aeth y bardd ati i wrth-droi a thrawsffurfio sefyllfaoedd a phersbectifau barddonol y testunau a adleisiau yn brawf, petai angen hynny, nad benthg yn slafaidd a goddefol a wnaeth, eithr cymhwyso'r elfennau at ei weledigaeth unigolyddol, ingol. Yr oedd y cyfraniadau yn *The Penguin New Writing*, 21 – yn gerddi, ysgrifau beirniadol a hefyd, yn achos un enghraifft ganolog, fel y gwelsom, stori fer – i Waldo yn weithiau catalytig, a'r broses o fanteisio'n greadigol arnynt mewn trindod o gerddi diffiniol, sef 'Geneth Ifanc', 'Oherwydd ein Dyfod' a 'Cwmwl Haf', yn ddiau yn un gathartig. Dyma ryngdestunoldeb creadigol fel egwyddor sylfaenol, gynhaliol, ysgogol. Daeth Waldo a Linda ar ddechrau 'Oherwydd ein Dyfod' i 'ystafell dawl'. Gyda chymorth *The Penguin New Writing*, 21, lluniodd y bardd gerdd sydd, megis 'Geneth Ifanc' a 'Cwmwl Haf', hefyd yn siambr atsain.

.....

94 Gruffydd, "'Geneth Ifanc'", t. 142.


95 James Nicholas, *Waldo Williams* (Cardiff: University of Wales Press, 1975), t. 58. Gweler hefyd sylwadau Waldo mewn llythyr at D. J. Williams, 15 Hydref 1956, ynghylch cyhoeddi *Dail Pren*; *Waldo Williams: Rhyddiaith*, tt. 85–86.

[SUMMARY]

‘Myned Allan i Fanfrig Gwreiddiau’ (‘Going Out into the Network of Roots’):
Waldo Williams and *The Penguin New Writing*

This article establishes a series of new sources for some major poems by Waldo Williams (1904–71), arguably the finest Welsh-language poet of the twentieth century. Its main focus is one of Williams’s most difficult and enigmatic poems, ‘Oherwydd ein Dyfod’ (‘Because of Our Coming’) – a celebratory meditation on the poet’s relationship with his wife Linda, who died in 1943, after a little more than two years of marriage – but the detailed textual discoveries in the article resonate also with other key Williams poems such as ‘Geneth Ifanc’ (‘A Young Girl’, c.1947) and, notably, ‘Cwmwl Haf’ (‘A Summer Cloud’, 1947). The locus of the discoveries is a specific number – 21, published in 1944 – of the influential periodical *The Penguin New Writing*, edited by John Lehmann. The author identifies for the first time numerous connections – of source, allusion and analogy – between Williams’s work and several of the individual contributions to *The Penguin New Writing*, 21, which include poems, a short story and critical essays. Particular attention is drawn to the crucial influence on ‘Oherwydd ein Dyfod’ of a poem by A. S. J. Tessimond, ‘Not Love Perhaps’, together with works by Stephen Spender, Edith Sitwell and C. Day Lewis. The author also identifies a short story by John Sommerfield, ‘Above the Clouds’, as an important source for Williams’s major poem ‘Cwmwl Haf’. Other radiations and interconnections across a Welsh-English literary border are explored, and are given a further detailed base in substantive footnotes.

The article demonstrates that the various contributions to *The Penguin New Writing*, 21 formed a matrix of potent images, perspectives and poetic structures which acted as catalysing influences on Waldo Williams. Indeed, the essay argues that it was this very nexus of poetic material that enabled the poet to give voice, through a process of ventriloquial allusion and echo, to some of his most private and painful experiences during the 1940s. The author shows that the catalysing effect of *The Penguin New Writing*, 21 is particularly evident in the way in which Williams responds creatively to the texts to which he alludes, often reversing and subverting decisive elements of viewpoint and emphasis. It is also argued that Williams’s use of this matrix of texts can also be seen as a dramatization on an intertextual level of one of the salient features of his poetry, as of his wider world-view, namely the concept of an encompassing web or network (the ‘cyflawn we’ of the poem ‘Brawdoliaeth’ (‘Brotherhood’)) of interconnecting, integrating, harmonizing impulses.



Ffig. 1: Clawr blaen *The Penguin New Writing*, 21 (1944)



Ffig. 2: A. S. J. Tessimond (1902–62)